## PECYN RECRIWTIO

# Gweithiwr/wraig Cefnogol Iechyd a Llesiant



# Neges gan y Brif Weithredwraig

## Annwyl Ymgeisydd,

Diolch ichi am ddangos diddordeb mewn ymuno ag Antur Waunfawr fel Gweithiwr/wraig Cefnogol Iechyd a Llesiant.

Gweledigaeth R. Gwynn Davies, gyda chefnogaeth gref gan bobl ardal Waunfawr fu'n gyfrifol am sefydlu Antur Waunfawr yn 1984.

Ers hynny, mae'r cwmni wedi datblygu, ac mae'r fenter gymdeithasol erbyn heddiw'n cyflogi dros 100 aelod o staff, ac yn cefnogi dros 65 o oedolion gydag anableddau dysgu.

Rydym yn awyddus i groesawu mwy o weithwyr gofal atom er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig gofal a gweithgaredd llesiant o safon uchel. Yn y pecyn gwybodaeth hwn cynwysir gofynion ac amodau'r swydd, ond mae croeso ichi gysylltu i drafod ymhellach.

I wneud cais am swydd, ewch draw i **anturwaunfawr.org/swyddi** neu cysylltwch â ni ar **swyddi@anturwaunfawr.cymru** neu **01286 650721**.

Cofion cynnes,



**Ellen Thirsk,**
**Prif Weithredwraig**



# Y Swydd

## Manylion swydd

**Teitl swydd:** Gweithiwr/wraig Cefnogol Iechyd a Llesiant (dydd/preswyl/hamdden)

**Yn atebol i:** yn y lle cyntaf i'r unigolion ag anableddau dysgu yn eu man gwaith dyddiol, ac yna i'r Rheolwr Prosiect perthnasol, ac yn y pen draw i'r Prif Weithredwr a Bwrdd y Cwmni.

**Gofynion y swydd:** Bydd yn ofynnol i ddeilydd y swydd gyflawni ystod o ddyletswyddau yn unol â chyfarwyddyd rheolwyr man gwaith yr unigolion ag anableddau dysgu sy'n derbyn y gefnogaeth. Bydd gofyn i deilydd y swydd gymryd cyfrifoldeb llawn dros yr unigolion ag anableddau dysgu yn y man gwaith, gan gynnwys mynychu unrhyw apwyntiadau fydd gan yr unigolion.

**Cyflog:** £20,319 y flwyddyn pro rata (£10.42 yr awr) i weithio oriau amrywiol dydd Llun – dydd Sul (yn unol â rota) yn cynyddu i £21,255 y flwyddyn pro rata (£10.90 yr awr) yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus. Wedyn, cynigir cyflog uwch i staff sy'n cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Amser dwbwl ar Ŵyl Banc a lwfans cysgu i mewn £88.57 y noson.

**Lleoliad:** Yn ddibynnol ar safle gwaith yr unigolyn gydag anableddau dysgu sydd yn derbyn y gefnogaeth gwasanaeth dydd/preswyl. Gall fod yn ardal Waunfawr, Caernarfon neu Benygroes.

## Cyfrifoldebau

1. Cefnogi'r unigolyn gydag anableddau dysgu yn eu man gwaith ac adref i ddatblygu eu sgiliau.  Bydd angen annog yr unigolion i fynychu gweithgareddau iechyd a llesiant i gyd-fynd â'r cynlluniau gofal.

2. Sicrhau bod y rhaglen gweithgareddau iechyd a lles yn cael eu gweithredu yn gyson yn unol â gofynion yr unigolion gydag anableddau dysgu.

3. Sicrhau bod y Rheolwr Prosiect yn cael gwybod am unrhyw anawsterau allai godi yn y cartref neu'r lleoliad(au) gwaith.

4. Meithrin perthynas dda gyda'r asiantaethau sy'n cynnig gwasanaeth yn ogystal â'r gymuned yn ehangach.

5. Mynychu unrhyw apwyntiadau meddygol fydd gan yr unigolion gydag anableddau dysgu.

6. Mynychu unrhyw gyfarfodydd adolygu ar gyfer yr unigolion gydag anableddau dysgu.

7. Yn unol â'r angen, sicrhau bod trefn cofnodi a dosbarthu meddyginiaeth i'r unigolion gydag anableddau dysgu yn cael ei chyflawni'n briodol.

8. O bryd i'w gilydd mynd ar wyliau a mynychu digwyddiadau hamdden gyda'r unigolion gydag anableddau dysgu, boed hynny yn y wlad hon neu dramor.

9. Sicrhau bod unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael ei throsglwyddo rhwng y lleoliad(au) gwaith a'r cartref.

10. Unrhyw ddyletswyddau eraill yn unol â chais y Cwmni.

## Ein sefydliad

Mae'r Antur yn fenter gymdeithasol flaenllaw sy'n darparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu yn eu cymuned. Fe'n sefydlwyd yn 1984, ac erbyn heddiw mae'r fenter yn cyflogi dros 100 aelod o staff, ac yn cefnogi dros 65 o oedolion gydag anableddau dysgu.

Mae ein gwefan yn cynnig mwy o wybodaeth am gefndir yr Antur.

## Manyleb Person

### Sgiliau allweddol

- y gallu i wrando a chreu perthynas dda gyda'r unigolion sy'n derbyn cefnogaeth.
- y gallu i weithio ar eu pennau eu hunain ac yn rhan o dîm
- y gallu i annog unigolion gydag anableddau dysgu i ehangu eu sgiliau
- y gallu i gofnodi manylion ariannol/personol yn fanwl a chywir
- sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg
- lefel dda o ffitrwydd i gefnogi'r unigolion gydag anableddau dysgu yn ystod gweithgareddau llesiant a gofal
- gyrrwr a pherchennog car yn hanfodol
- y gallu i fod yn hyblyg o fewn y swydd gan gynnwys gweithio gydag unrhyw unigolyn a/neu safle yn ôl y gofyn

## Cymwysterau a Gwybodaeth

- NVQ Lefel 2 mewn Gofal (disgwylir i'r deilydd gyflawni'r cymhwyster o fewn 12 mis o gychwyn y swydd)
- Dealltwriaeth drylwyr ac ymrwymiad i hawliau’r unigolyn
- Dealltwriaeth o rôl a diwylliant y sector wirfoddol
- Byddai ddiddordeb mewn chwaraeon o fantais e.e., cerdded, beicio, chwaraeon dŵr, cadw’n heini, nofio, marchogaeth, a.y.y.b, yn ogystal â'r awydd i droi eu llaw at weithgareddau eraill.
- Byddai diddordeb mewn bwyta’n iach, iechyd a lles a iechyd meddwl o fantais.
- Dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau Iechyd a Diogelwch o fantais.

## Profiad

- Byddai profiad o weithio yn y maes gofal dydd/preswyl o fantais.
- Profiad o drafod a chydweithio gyda staff, asiantaethau eraill a’r gymuned.

## Agwedd

- Agwedd bositif, hyblyg a dealltwriaeth o ddiwylliant Antur Waunfawr ac asiantaethau eraill sy'n rhoi gwasanaeth dydd/preswyl.
- Sensitifrwydd, a’r gallu i wrando ar ddyheadau’r unigolion gydag anableddau dysgu a chreu awyrgylch braf yn y man gwaith.

## Hyblygrwydd

Tynnir eich sylw at y ffaith bod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi'n fanwl a gallant newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb. Yn ychwanegol, mae’n ofynnol i bob aelod o staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a’u cyfrifoldebau, a phan bo angen, cyfnewid o fewn y Cwmni er mwyn cyfarch anghenion a gofynion sy’n newid yn barhaus. Bydd angen o’r math hwn yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a’r unigolion gydag anableddau dysgu.

# Amodau Swydd

## Lwfans car

Bydd staff yn derbyn lwfans costau teithio o 45c y filltir am y 10,000 milltir cyntaf (25c y filltir wedi hynny) am unrhyw gostau teithio sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Telir lwfans costau teithio yn fisol (ar ôl cyflwyno ffurflen gais am dreuliau).

## Cytundeb parhaol

Blwyddyn yn y lle cyntaf gyda phosibilrwydd am estyniad

## Lleoliad gwaith

Waunfawr, Caernarfon a/neu Penygroes

## Cyfnod prawf

6 mis

## Cyfnod rhybudd

1 mis

## Telerau ac amodau

- Oriau amrywiol rhwng dydd Llun a dydd Sul
- Amser dwbl ar ŵyl banc.
- Lwfans cysgu i mewn £88.57 y noson.

## Gwyliau blynyddol

29 diwrnod y flwyddyn sy'n cynnwys diwrnodau gŵyl banc (bydd y cyfan yn pro-rata).

Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth di-dor ar 1af Ebrill caniateir 5 diwrnod y flwyddyn yn ychwanegol.

## Cynllun pensiwn

Cynllun pensiwn gyda **Standard Life**. Manylion pellach ar gael gan yr Adran Adnoddau Dynol.

## Absenoldebau eithriadol

- Priodi, symud tŷ neu ofynion teuluol annisgwyl: Hyd at 5 niwrnod o fewn 2 flynedd. Bydd rhaid gwneud cais drwy eich Rheolwr Llinell.
- Apwyntiad deintydd/ysbyty, ante-natal a.y.y.b.: Caniateir amser ar gyfer hyn yn ystod oriau gwaith.

## Profedigaeth

- Teulu’r aelwyd: 1 wythnos.
- Perthynas agos arall: 3 diwrnod.
- Wythnos ychwanegol os yw baich trefnu angladd yn syrthio arnoch.

## Nawdd salwch

Mae Antur Waunfawr yn darparu nawdd salwch o 6 wythnos o dâl llawn, a chwe wythnos hanner tâl.

## Ymwadiad

Mae’r swydd hon wedi ei heithrio o’r **Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974** ac fel rhan o’r drefn recriwtio staff, bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gael eu gwirio gan y swyddfa cofnodion troseddol

Oherwydd eithrio’r Antur o effeithiau’r **Ddeddf Adferiad Troseddwyr 1974**, bydd yn ofynnol i’r ymgeisydd llwyddiannus ddatgelu pob trosedd y maent wedi cael eu hunain yn euog ohoni hyd yn oed os yw’r rheiny wedi darfod yn unol â’r ddeddf ac na fyddent fel rheol yn gorfod cael eu datgelu.  Os bydd i’r ymgeisydd llwyddiannus fethu â datgelu trosedd a bod Antur Waunfawr yn darganfod bod trosedd wedi ei chofnodi yn eu herbyn, bydd y cytundeb cyflogaeth yn cael ei derfynu yn syth, heb unrhyw benderfyniad pellach.

Antur Waunfawr